

**Coflyfr
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol**
2019/20

Cynnwys

	Page
Rhagair gan Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	04
Crynodeb gweithredol	05
Cefndir	07
Erthygl 2	07
Erthygl 3	07
Erthygl 5	07
Erthygl 6	08
Erthygl 8	08
Erthygl 9	08
Erthygl 10	08
Erthygl 14	09

Achosion

Adroddiadau Diddordeb Cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan a16 Deddf OGCC 2005	09
201703374 [Iechyd – gwasanaethau iechyd meddwl]	09
201701479 & 201702267 [Iechyd – achos arenol pediatrig]	10
201603927 [Iechyd – gofal diwedd oes yr henoed]	10
Adroddiadau nad ydyn nhw o ddiddordeb cyhoeddus o dan a21 Deddf OGCC 2005	11
201705774 [Gwasanaethau Cymdeithasol a chyllido cartrefi gofal]	11
201700388 [Darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol]	12
201707282 [Gwasanaethau Tai]	12
201708070 [Iechyd – gofal mamolaeth]	13
201800160 [Iechyd - gofal diwedd oes]	14
201604723 [Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a gwneud penderfyniadau]	14
201606061 [Gwasanaethau Cymdeithasol – ymchwiliad Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed]	15
201801288 [Gwasanaethau Cymdeithasol – materion Gwarchodaeth Arbennig]	16
201705056 [Iechyd – trin claf sy'n dioddef o ddementia/cred grefyddol]	17
201605406 [Tai – addasiadau/atgyweiriadau ar gyfer tenantiaid anabl. Deddf Cydraddoldeb]	18

Page

201606454 [Addysg – Cludiant i'r Ysgol]	18
201704744 [Ymdrin â Chwynion – Deddf Cydraddoldeb]	19
201704517 [Tai – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol]	20
201706115 [Gwasanaethau Tai – grantiau ar gyfer pobl anabl]	21
201702158 Cynllunio – niwsans sy'n cael ei achosi gan sŵn]	21

Rhagair

Mae'n rhoi pleser mawr i mi gyflwyno'r coflyfr cyntaf sy'n canolbwyntio ar achosion yr ydw i wedi ymdrin â nhw sydd ag elfen hawliau dynol neu gydraddoldeb ynddyn nhw.

Ym mhob un o'r achosion hyn, mae materion hawliau dynol un ai wedi cael eu codi yn benodol fel rhan o'r gŵyn neu maen nhw wedi bod yn ganolog i'm canfyddiadau.

Disgwylir i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried hawliau dynol y defnyddwyr yn deg, wrth gynllunio'r gwasanaethau a'u cyflawni nhw fel ei gilydd.

Lle'r ydw i'n gweld tystiolaeth bod methiant mewn gwasanaeth wedi achosi anghyfiawnder yn uniongyrchol, mae'n briodol i mi ystyried a gafodd hawliau dynol yr unigolyn eu peryglu.

Ers llawer o flynyddoedd, rydw i wedi cyhoeddi coflyfr yn cynnwys crynodebau o'r holl adroddiadau ymchwilio a gyhoeddwyd yn ystod y chwarter blaenorol, yn ogystal â detholiad o grynodebau yn ymwneud â chwynion a gafodd eu setlo fel ffordd amgen i ymchwiliad (a elwir yn setliadau gwirfoddol).

Mae llawer o'r rhai hynny wedi ymdrin ag egwyddorion TPCUY (Tegwch, Parch, Cydraddoldeb, Urddas ac Ymreolaeth) a materion ehangach cydraddoldeb a hawliau dynol. Bu hyrwyddo egwyddorion TPCUY (yn arbennig felly tegwch ac urddas) yn ymhlyg yng ngwaith craidd cynlluniau Ombwdsmon drwy'r byd, ac nid yw Cymru yn eithriad yn hyn o beth.

Yn fwy diweddar, rydw i wedi cyfeirio yn benodol at Erthyglau hawliau dynol penodol mewn achosion priodol. Mae'r Erthyglau hynny'n deillio o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Ers hynny, mae'r rhain wedi'u cadw gan Ddeddf DU y Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae fy nhîm ymchwiliol wedi rhoi mwy o bwyslais ar archwilio ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol wrth ymdrin â chwynion.

Tra fy mod wedi paratoi crynodebau yn flaenorol ar gyfer dibenion mewnol, er mwyn cefnogi ein ffocws ar gydraddoldeb a hawliau dynol, dyma fy nghoflyfr cyntaf ar gyfer ei gyhoeddi yn allanol.

Nid yw canfyddiadau pendant bod torri amodau unrhyw gyfreithiau perthnasol yn faterion ar fy nghyfer i, ond materion i'r Llysoedd. Fodd bynnag, drwy amlinellu'r meddwl y tu ôl i'r penderfyniadau hyn, gobeithiaf ddangos y dull a gymeraf a phwysigrwydd parhaus ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yng ngwaith fy swyddfa.

Fel Ombwdsmon, mae'n rhaid i mi hyrwyddo a helpu i ddiogelu hawliau dynol pobl gyffredin yn eu hymdriniaeth â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hon yn ddyletswydd y bydd fy swyddfa yn parhau i'w chynnal gyda phenderfyniad.



Crynodeb Gweithredol

Mae'r Coflyfr hwn yn cynnwys un ar ddeg o achosion lle darganfyddais fod cyrff cyhoeddus wedi methu ag ystyried neu ddiogelu hawliau dynol defnyddwyr gwasanaethau.

O'r achosion hyn, arweiniodd tri achos at gyhoeddi adroddiadau diddordeb cyhoeddus o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005.

Arweiniodd wyth o'r achosion hyn at gyhoeddi adroddiadau nad oedd o ddiddordeb cyhoeddus o dan adran 21 o'r un Ddeddf.

Yn ogystal, rydw i'n amlinellu pedair cwyn lle cyrhaeddwyd setliadau fel modd amgen i ymchwiliad llawn. Dengys yr achosion hyn fod sefydliadau yn gallu newid er gwell pan maen nhw'n gwneud camgymeriadau, ond yn unig – yn fy mhrofiad i – lle mae diwylliant o dryloywder a gwelliant parhaus.

O'r achosion sy'n cael eu cynnwys yma:

- Mae chwech yn cynnwys cwynion yn erbyn Byrddau Iechyd
- Mae saith yn cynnwys cwynion yn erbyn Awdurdod Lleol
- Mae un yn cynnwys cwyn yn erbyn Cymdeithas Dai
- Mae un yn cynnwys cwyn yn erbyn swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau

Mae'r achosion yn ymdrin ag amrediad o bynciau, yn cynnwys:

- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Gofal diwedd oes
- Gwasanaethau cymdeithasol a chyllido cartrefi gofal
- Gofal mamolaeth
- Methu â chydymffurfio â dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau

Mae rhai enghreifftiau o'r achosion a dderbyniodd sylw yn cynnwys:

- Achos Mr B, lle'r oedd ei fab un ar ddeg oed wedi disgwyl dwy flynedd a hanner am lawdriniaeth arenol bediatrig frys. Roedd yr oedi annerbyniol hwn mewn triniaeth wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd y bachgen, gan achosi llawer o straen a gofid iddo ef a'i deulu fel ei gilydd. Canfu'r Ombwdsmon fod camweinyddu yn y modd yr oedd y ddau Fwrdd Iechyd a oedd ynghlwm â'r mater wedi ymdrin â C fel claf. Canfu fod yr oedi a ddioddefwyd yn ddigonol i fod yn gysylltiedig ag Erthygl 8 o'r ECHR (yr hawl i barchu bywyd preifat a bywyd teuluol).

- Achos Mrs X, lle barnwyd bod y gofal a ddarparwyd ar ddiwedd bywyd y ddynes oedrannus yn “niweidiol”, i’w llesiant a’r modd y bu farw fel ei gilydd. Yn anffodus, bu’r claf farw pan oedd ar droli yn disgwyl am wely, gan olygu nad oedd ei theulu yn gallu treulio eu horiau olaf gyda hi mewn lle distaw. Canfu’r Ombwdsmon fod hawliau dynol Mrs X yn “debygol o fod wedi’u peryglu” eto o dan Erthygl 8, oherwydd nad oedd ei hurddas ar ddiwedd ei bywyd wedi cael ei barchu.
- Achos Mr A, Sîc oedrannus, selog a oedd yn dioddef o ddementia, y torrwyd blew ei wyneb a’i farf gan aelod o staff yn yr ysbyty. Dywedodd y teulu eu bod nhw a Mr A mewn trallod ar ôl darganfod hyn a’i bod yn weithred o ymyriad crefyddol oherwydd nad oedd Mr A erioed wedi torri ei farf, yn unol ag arferion Sicaidd llym. Roedd y teulu yn teimlo bod yr ymyriad crefyddol hwn wedi cyfrannu yn sylweddol at ei ddirywiad, oherwydd bu farw Mr A ychydig ddyddiau yn ddiweddarach. Darganfu’r Ombwdsmon fod sawl agwedd o hawliau dynol Mr A wedi cael eu heffeithio – Erthygl 3 (triniaeth ddiraddiol), Erthygl 8 (yr hawl i barchu’i fywyd preifat a’i fywyd teuluol) ac Erthygl 9 (yr hawl i ddangos beth oedd ei grefydd).

Yn ogystal, rydw i’n cynnwys tri achos lle na chadarnhawyd y cwynion oherwydd fy mod yn credu bod y rhain yn ran o hyfforddiant ar gyfer cyrff cyhoeddus.

Cefndir

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r hawliau a'r rhyddidau fel yr amlinellwyd yn Siarter Hawliau Dynol Ewrop i gyfraith ddomestig y DU. Mae rhai ohonyn nhw yn hawliau **diamod**, sy'n golygu y dylai'r dinesydd fod yn rhydd i'w mwynhau, ac ni all y wladwriaeth byth ymyrryd â hynny. Ceir rhai hawliau **cyfyngedig**, sy'n golygu y gellid ymyrryd â nhw mewn rhai amgylchiadau (fel ar adegau o ryfel neu argyfwng). Yn olaf, mae eraill yn hawliau **amodol**, sy'n golygu y gall y wladwriaeth ymyrryd yn gyfreithiol â nhw mewn rhai sefyllfaoedd – e.e. er mwyn gwarchod hawliau dinasyddion eraill. Yr hawliau mwyaf cyffredin sy'n ymddangos yn y cwynion a ystyrir gan fy swyddfa yw'r canlynol:

Erthygl 2 - yr hawl i fyw - hawl ddiamod

Mae'r erthygl hon yn cynnwys gwarchod bywyd gan awdurdodau cyhoeddus a gall fod yn berthnasol i'w hystyried lle mae honiad bod marwolaeth wedi digwydd ac roedd modd ei hosgoi, darparu triniaeth sy'n arbed bywyd neu oedi wrth roi triniaeth. Mae'n rhoi rhwymedigaethau cadarnhaol (i wneud rhywbeth) neu rwymedigaethau negyddol (peidio â gwneud rhywbeth) fel ei gilydd ar gyrff cyhoeddus.

Erthygl 3 - Hon yw'r hawl o ryddid rhag arteithio neu driniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol - hawl ddiamod

Diffinnir artaith fel poen neu ddiodefaint difrifol sy'n cael ei achosi yn fwriadol ar rywun. Mae triniaeth annynol yn achosi diodefaint corfforol neu ofid meddwl, ac felly gellid ei weld fel creulon neu farbaraidd ond nid oes angen iddo fod fwriadol. Mae triniaeth ddiraddiol yn ofnadwy o ddarostyngol neu'n ddiurddas ac, unwaith eto, nid oes angen iddo fod yn fwriadol. Er mwyn bodloni meini prawf Erthygl 3, byddai'r driniaeth yn debygol o fod angen bod yn berthnasol am gyfnod estynedig a gall gynnwys esgeuluso dyletswyddau, defnyddio ataliaeth a thriniaeth yn erbyn dymuniadau'r unigolyn. Mae'r Llysoedd wedi gosod trothwy uchel ar gyfer Erthygl 3, ond gall ystyriaethau o'r fath yn aml gael eu gweld yng nghyd-destun Erthygl 8 (yr hawl i barchu bywyd preifat a bywyd teuluol) oherwydd bod yr effaith ar yr unigolyn yn hanfodol yma.

Erthygl 5 - Yr hawl i ryddid a diogelwch - hawl gyfyngedig

Gall yr erthygl hon fod yn berthnasol pan mae unigolyn yn cael ei gadw mewn rhyw ffordd – h.y. nid ydyn nhw'n rhydd i adael. Rhoddir ystyriaeth i'r cyd-destun a'r gyfraith – e.e. gall unigolyn gael ei amddifadu o'i ryddid yn gyfreithlon yn dilyn euogfarn a dedfryd gan y llysoedd.

Mewn lleoliadau iechyd meddwl neu gartrefi gofal, byddem yn ystyried y diogelwch gweithdrefnol a sefydlwyd cyn i unrhyw gadw ddigwydd, fel y drefn briodol o dan Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. A yw'r unigolyn wedi gallu herio'r penderfyniad hwnnw – e.e. mynediad at y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl?

Erthygl 6 - yr hawl i gael treial teg - **hawl ddiamod**

Mae'r hawl i gael treial deg yn ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn â hawliau sifil neu wrth ymdrin â chyhuddiad troseddol. Dylai cyrff cyhoeddus gwrdd â'r gofyniad hwn yn ogystal yn eu prosesau ymdrin â chwynion yn nhermau tegwch trefniadol. A yw'r awdurdod cyhoeddus wedi darparu penderfyniad rhesymegol, fel bod rhywun yn gwybod y sail drosto ac yn gallu penderfynu a ddylid ei herio ymhellach (gan unrhyw broses apeliadau)?

A yw cyfansoddiad corff/panel penderfynu yn sicrhau tegwch a didueddrwydd? Gellir cyfyngu hawl i dreial cyhoeddus os yw eithrio'r cyhoedd yn angenrheidiol i ddiogelu rhai buddiannau neu os oes hawl i symud i dribiwnlys sy'n cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

Erthygl 8 - yr hawl i barchu bywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth - **hawl amodol**

Mae'r erthygl hon yn gysylltiedig yn agos ag egwyddorion TPCUY, sef urddas, parch ac ymreolaeth. Gall gynnwys materion cyfeiriadedd rhywiol/rhyw, yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sy'n cael ei chadw am unigolyn neu'r hawl i fyw yn annibynnol a gwneud dewisiadau. Mae hawl yn bodoli i fwynhau eich cartref eich hun heb iddo gael ei effeithio gan sŵn neu lygredd a mwynhau byw fel teulu, lle y bo'n bosibl. Fel y nodwyd uchod, gall orgyffwrdd yn sylweddol â'r hawliau a osodwyd yn Erthygl 3 mewn materion o urddas.

Erthygl 9 - yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd - **hawl ddiamod (a chyfyngedig)**

Tra bod yr hawl i **feddu** ar gred grefyddol yn **ddiamod**, ceir achosion pan y gellir ymyrryd â'r hawl i'w **dangos** fel bod yr agwedd honno yn hawl **gyfyngedig** – e.e. byddai disgybl yn dymuno gwisgo math o wisg ffydd traddodiadol yn dangos ei grefydd. Fodd bynnag, os oes gan yr ysgol gôd iwnifform caeth, yna gallai fynnu bod y disgybl yn gwisgo'r iwnifform (ac felly yn ymyrryd â dangos ei grefydd). Er hynny, gall barhau i gynnal ei gredoau crefyddol. Mae hawl i gael addysgu plant yn unol â chredoau crefyddol, er nad oes dyletswyddau ar awdurdodau i ddarparu ysgolion crefyddol ar wahân os gofynnir amdanyn nhw. Dylai cyrff gofal iechyd ddiogelu hawl yr unigolyn i ddangos credoau crefyddol, lle mae'n ymarferol i gwrdd â'r holl ofynion.

Erthygl 10 - yr hawl i ryddid mynegiant - **hawl amodol**

Mae gan bawb hawl i fod â barn a mynegi safbwyntiau hyd yn oed os ydyn nhw ar adegau yn amhoblogaidd. Mae ymyrryd â nhw yn gallu bod yn angenrheidiol ar gyfer diogelwch y cyhoedd, neu er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth a dderbyniwyd yn gyfrinachol.

Erthygl 14 - gwahardd gwahaniaethu - **gellir ei defnyddio gyda hawliau eraill yn unig.**

Mae gan yr hawl hon gysylltiad agos â Deddf Cydraddoldeb, ac nid yw'n annibynnol ac felly gellir ei defnyddio yn unig os yw'n gysylltiedig ag un o'r Erthyglau hawliau dynol eraill.

Cynnwys

[Adroddiadau diddordeb cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan a16 Deddf OGCC 2005](#)

[Adroddiadau nad ydyn nhw o ddiddordeb cyhoeddus o dan a21 Deddf OGCC 2005](#)

[Setliadau fel dull amgen i ymchwiliadau](#)

[Ni chadarnhawyd](#)

Achosion

Adroddiadau Diddordeb Cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan a16 Deddf OGCC 2005

201703374 [Iechyd – gwasanaethau iechyd meddwl]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Cwynodd Mrs A fod y Bwrdd Iechyd wedi oedi wrth ddarparu Mr B, sef ei mab ag asesiadau amserol ynglŷn ag iechyd meddwl ac anhwylder sbectrum awtistiaeth (ASA). Dywedodd Mrs A ei bod wedi gwyllo Mr B yn brwydro i weithredu am lawer o flynyddoedd, wrth iddo suddo yn ddyfnach i iselder a cheisio cymryd ei fywyd ei hun. Er gwaethaf hyn, roedd oedi parhaus a hirfaith gyda'i asesiadau.

Darganfu'r Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd wedi siomi Mr B yn gyffredinol drwy beidio â'i asesu mewn modd amserol ac felly methu â rheoli ei risgiau a'i argyfwng. Roedd y gofal yn methu nod y safonau cenedlaethol a ddisgwyliwyd. Tynnodd yr Ombwdsmon sylw at y ffaith fod hawliau dynol Mr B (Erthygl 8) yn berthnasol yn yr achos hwn a'i fod yn briodol iddo ystyried a oedd yr hawliau hynny wedi cael eu peryglu. Dywedodd:

“Roedd Mr B yn unigolyn bregus, dylai'i anghenion a'i ddymuniadau fod wedi cael eu hystyried yn gywir gan y Bwrdd Iechyd a dylai fod wedi cael ei drin gyda thegwch, parch, cydraddoldeb, urddas ac ymreolaeth...”

“Dioddefodd Mr B y diffyg urddas o beidio â chael bywyd teuluol, nac yn wir unrhyw ansawdd bywyd... rydw i'n ystyried y bu ymgysylltiad â hawliau Erthygl 8 Mr B o ganlyniad i'r methiannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Roedd hyn wedi arwain at ansicrwydd, a dioddefodd Mr B y diffyg urddas o fyw mewn cyflwr o arwahanrwydd, a oedd yn cau'r byd allan gydag ansawdd bywyd cyfyngedig yn ystod yr amser hwn.”

Argymhellodd yr Ombwdsmon fod ei adroddiad yn cael ei gyfeirio at dîm Cydraddoldebau a Hawliau Dynol y Bwrdd Iechyd, er mwyn nodi sut y gellid ymwreiddio hawliau dynol unigolyn ymhellach i'w arferion a'i weithdrefnau iechyd meddwl.

201701479 & 201702267 [Iechyd – achos arenol pediatrig]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro A Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Cwynodd Mr B fod ei fab, sef C (a oedd yn 11 oed) wedi bod yn disgwyl am ddwy flynedd a hanner am lawdriniaeth arenol bediatrig. Dywedodd fod hyn yn amser disgwyl diangen ac roedd wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd C. Yn ystod yr amser hwn, roedd C wedi dioddef heintiau yn aml, a oedd angen gwrthfotigau, ac roedd ganddo friw agored ar ei ochr a oedd angen ei drin deirgwaith yr wythnos. Roedd C yn methu â gwneud y pethau yr oedd yn eu mwynhau gyda'i ffrindiau, fel chwarae pêl-droed neu nofio, oherwydd na allai wneud unrhyw weithgareddau cyswllt. Roedd hyn wedi bod yn ddirdynol ac yn annymunol i C. Roedd tystiolaeth fod C wedi methu â ffynnu yn ystod yr amser yma.

Gwelodd yr Ombwdsmon fod camweinyddu yn y modd yr oedd y ddau Fwrdd Iechyd wedi ymdrin â C fel claf, a bod yr oedi wrth ddisgwyl am ei lawdriniaeth yn annerbyniol. Yn ogystal, nododd yr Ombwdsmon fod yr effaith yn sylweddol ar C o'i gyflwr gwanychol yr adeg honno. Tynnodd sylw at y ffaith bod cydnabod y claf fel unigolyn a darparu gofal priodol ar gyfer ei anghenion yn ganolog wrth ddefnyddio hawliau dynol mewn termau ymarferol. Nododd yr Ombwdsmon fod Erthygl 3 (triniaeth annynol a/neu ddiraddiol) ac Erthygl 8 (yr hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol yn cwmpasu urddas) yn berthnasol i'w hystyried yn yr achos hwn. Roedd yr Ombwdsmon yn teimlo bod maint y disgwyl a ddiodefwyd gan C yn ddigonol i fod yn gysylltiedig ag Erthygl 8, ar ôl darganfod eisoes bod y disgwyl yn annerbyniol. Tra'n cydnabod bod y prawf a osodwyd gan y Llysoedd ar gyfer bod yn gysylltiedig ag Erthygl 3 yn uchel ac at ei gilydd mae'n debyg na chafodd ei ymgysylltu yn yr achos hwn; dywedodd yr Ombwdsmon mai mater cyfartal iawn ydoedd. Tynnodd sylw at y ffaith fod ei ganfyddiadau yn gyffredinol yn yr achos hwn yn ei wneud yn un difrifol iawn. Gan hynny, roedd o ddiddordeb cyhoeddus.

201603927 [Iechyd – gofal diwedd oes yr henoed]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cwynodd Mr Y ynglŷn â'r gofal yr oedd ei fam (Mrs X) wedi'i dderbyn ar ôl mynd i'r ysbyty pan oedd hi'n wael iawn. Roedd y teulu wedi cytuno na ddylai Mrs X dderbyn unrhyw ymyriadau, ond derbyn gofal cefnogol am gyfforddusrwydd ac ansawdd bywyd yn unig. Er gwaethaf hyn, cafodd Mrs X ei throsglwyddo ddwywaith i ysbyty gwahanol i gael sgan. Ar yr ail achlysur (ar ôl siwrnai o 22 milltir), nid oedd unrhyw wely iddi ar ôl cyrraedd. O ganlyniad i hyn, yn anffodus bu farw ar droli tra'n disgwyl am wely.

Darganfu'r Ombwdsmon fod Mrs X wedi cael ei symud yn ddiangen o gofio na fyddai'r sgan arfaethedig wedi newid y dull o ofalu amdani. Dywedodd fod yr ail siwrnai, pan oedd Mrs X yn nesáu at ddiwedd ei bywyd, yn niweidiol i lesiant Mrs X a'r modd y bu farw. Nid oedd y teulu yn gallu treulio'r hyn a oedd yr oriau olaf gyda Mrs X mewn lle distaw. Roedd hyn wedi effeithio ar urddas Mrs X ac ar ansawdd yr

amser a oedd gan y teulu ar ôl gyda hi ac felly yn gysylltiedig ag Erthygl 8. Dywedodd yr Ombwdsmon fod hawliau dynol Mrs X yn debygol o fod wedi cael eu peryglu oherwydd na pharchwyd ei hurddas ar ddiwedd ei hoes. Yn ogystal, darganfu fod methiant wedi bod i ystyried anghenion y teulu ehangach fel sy'n cael eu hymgorffori yn Erthygl 8. Gwnaeth yr Ombwdsmon sawl argymhelliad ynglŷn â hyfforddi clinigwyr mewn materion gofal diwedd oes yn ogystal â gofyn i'w adroddiad gael ei gyfeirio at Dîm Cydraddoldebau a Hawliau Dynol y Bwrdd Iechyd er mwyn nodi sut y gallai ystyriaeth o hawliau dynol gael ei hymwreiddio ymhellach i'r ymarfer clinigol.

Gellir gweld dolen yma at y copi llawn o bob adroddiad sydd o ddiddordeb cyhoeddus a gyfeirir atyn nhw uchod:

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf - 201703374](#)

[Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - 201701479 a 201702267](#)

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - 201603927](#)

Adroddiadau nad ydyn nhw o ddiddordeb cyhoeddus o dan a21 Deddf OGCC 2005

201705774 [Gwasanaethau Cymdeithasol a chyllido cartrefi gofal]

Cyngor Sir Ynys Môn

Cwynodd Mr G fod y Cyngor wedi gwrthod darparu cyllid llawn ar gyfer ei ddewis o leoliad arall ar gyfer ei wraig sef Mrs G, a oedd yn dioddef o ddementia. Ni allai'r cartref lle'r oedd hi'n byw ynddo ei lletya mwyach ac roedd y cartref wedi gosod dyddiad pan fyddai hi yn gorfod gadael. Cwynodd Mr G fod y Cyngor wedi methu â'i gynorthwyo i ddod o hyd i gartref newydd a oedd yn gweddu i anghenion Mrs G ac roedd wedi cysylltu ag ef bedair wythnos yn unig cyn iddi orfod gadael y cartref. Yn ogystal, cwynodd fod y Cyngor wedi methu ag ailasesu anghenion Mrs G nac ystyried yr amhariad iddi wrth symud i gartref gofal newydd. Yn ogystal, roedd wedi methu ag ystyried unrhyw ganlyniadau iddo ef, oherwydd bod Mr G ei hun mewn iechyd gwael ac roedd yn gyrru i ymweld â'i wraig bob dydd.

Yn unol â hynny, daeth Mr G o hyd i gartref gofal yr oedd ef yn teimlo a oedd yn gweddu ag anghenion ei wraig, ac a oedd yn ei alluogi ef i barhau i ymweld â hi, ac roedd lle gwag yno i dderbyn Mrs G erbyn y dyddiad gadael. Fodd bynnag, roedd y cartref newydd yn costio mwy bob wythnos na'r lefel yr oedd y Cyngor yn barod i'w dalu fel arfer. O dan yr amgylchiadau, dadleuodd Mr G y dylai'r Cyngor dalu'r ffoedd 'ychwanegol'.

Darganfu'r Ombwdsmon fod y Cyngor wedi methu ag ymgysylltu yn ddigon cynnar, na chynnal ailasesiad o anghenion Mrs G, a oedd yn angenrheidiol er mwyn sefydlu addasrwydd unrhyw gartref newydd. Cadarnhaodd gŵyn Mr G. Yn unol â'r gyfraith a chanllawiau'r llywodraeth, nid oedd y Cyngor felly wedi gallu dangos bod unrhyw gartref preswyl rhatach yn cwrdd ag anghenion Mrs G. Yn ogystal, tynnodd yr Ombwdsmon sylw at y ffaith bod amgylchiadau'r achos yn ymgysylltu â hawliau dynol Mr a Mrs G (Erthygl 8). Roedd lleoliad y cartref newydd yn hanfodol i allu Mr a Mrs G i barhau â'u bywyd teuluol drwy ymweliadau dyddiol Mr G, a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant Mrs G.

Nid oedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod y Cyngor wedi dangos ystyriaeth o hawliau dynol yn ddigonol yn yr achos hwn – roedd ei gamau gweithredu a'i ddiffyg asesu yn awgrymu yn wahanol.

Gwnaeth yr Ombwdsmon sawl argymhelliad, yn cynnwys y dylai'r Cyngor ad-dalu'r ffioedd 'ychwanegol' yr oedd Mr G eisoes wedi'u talu a dylai ei staff gofal cymdeithasol gael eu hatgoffa ynglŷn ag ystyriaethau hawliau dynol Erthygl 8.

201700388 [Darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol]

Cyngor Gwynedd

Cwynodd Mrs X fod y Cyngor wedi methu â darparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer ei mab, sef Mr A ac wedi anwybyddu ei anghenion fel unigolyn a oedd yn dioddef o Anhwyllder Sbectrwm Awtistiaeth ("ASA").

Darganfu'r Ombwdsmon fethiannau eglur yn achos Mr A yn y modd yr oedd y Cyngor wedi anwybyddu ei gynllun gofal a thriniaeth, wedi methu ag adolygu ei anghenion yn iawn (drwy anwybyddu ei ASA yn yr adolygiad) gan arwain at doriad di-sail i oriau cefnogol Mr A. Achosodd camau gweithredu'r Cyngor anghyfiawnder sylweddol iddo. Yn ogystal, ym marn yr Ombwdsmon, roedden nhw wedi effeithio ar hawliau dynol Mr A (Erthygl 8). Fodd bynnag, teimlodd yr Ombwdsmon yn yr achos hwn fod ei ganfyddiad o gamweinyddu mor eglur ac mor ddifrifol, fel y byddai trafod materion hawliau dynol yn ychwanegu ychydig iawn o werth at ddadansoddiad a chanlyniad ei achos.

201707282 [Gwasanaethau Tai]

Cyngor Sir Ynys Môn

Cwynodd Mrs A (a oedd yn anabl ac roedd ganddi broblemau iechyd) ar ran ei hun a'i chymdogion oedrannus. Roedden nhw i gyd yn byw mewn byngalos wedi cael eu cynllunio ar gyfer yr henoed ac yn cwyno bod y Cyngor wedi methu â chyflawni cynllun arfaethedig i ddarparu manau parcio pwrpasol ar eu cyfer. Roedd y methiant hwnnw yn effeithio ar eu bywydau bob dydd a dywedodd Mrs A ei fod yn effeithio ar eu gallu i fyw 'gydag urddas'.

Tynnodd yr Ombwdsmon sylw at y ffaith bod gofyn i gyrff cyhoeddus, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, wneud addasiadau rhesymol i'w gwasanaethau er mwyn ymdrin â rhwystrau sy'n atal pobl gyda nodweddion gwarchoddedig fel anabledd gael at wasanaethau. Roedd yr hawl i fwynhau eich cartref eich hun a bywyd preifat a theuluol yn cael ei llywodraethu gan Erthygl 8. Er yn cydnabod nad oedd y ddarpariaeth barcio yn rhwymedigaeth statudol a osodwyd ar y Cyngor, teimlodd yr Ombwdsmon yn yr achos hwn fod y dystiolaeth yn dangos bod dull y Cyngor wedi bod yn unllygeidiog. Nid oedd wedi ystyried yn llawn yr effaith ar Mrs A a'i chymdogion. Ymhellach na hynny, roedd wedi methu â dangos i'r Ombwdsmon (drwy ddogfennaeth) ei fod wedi talu digon o sylw i'w ddyletswyddau cydraddoldeb (o addasiad rhesymol) na hawliau dynol (o urddas Mrs A i fwynhau ei chartref).

Yn ogystal, roedd y Cyngor wedi methu ag ystyried trothwy ei ddyletswyddau digartrefedd statudol yng ngoleuni sefyllfa gyffredinol Mrs A. Roedd yn cytuno ag argymhelliad yr Ombwdsmon i ymgymryd ag asesiad cywir o sefyllfa Mrs A gan gadw'r materion hyn o dan ystyriaeth.

201708070 [Iechyd – gofal mamolaeth]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cwynodd Ms X ynglŷn â'i gofal a'i thriniaeth gan Dîm Bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd yn ystod ei beichiogrwydd. Roedd hi wedi darganfod bod gwybodaeth amdani hi wedi cael ei chynnwys mewn ffurflen atgyfeirio ffurfiol ynglŷn â diogelu, ac na ddywedwyd wrthi hi ar y pryd. Dywedodd Ms X fod y wybodaeth amdani yn anghywir drwy ei phortreadu yn ansefydlog, anniogel ac anghydweithredol a fyddai'n arwain at roi ei phlentyn heb ei eni ar y Gofrestr Diogelu Plant. Dywedodd Ms X fod y Bwrdd Iechyd, drwy'i gamau gweithredu, wedi gwahaniaethu yn ei herbyn hi ar y sail ei bod wedi derbyn diagnosis o anhwylder deubegynol. Dywedodd Ms X fod hyn wedi'i thrawmateiddio ac roedd yn teimlo ei bod wedi cael ei bwlio a'i stigmatiddio, gan deimlo ei bod wedi cael ei gorfodi i gytuno â rhai ymyriadau meddygol a pheidio â chael y cyfle i eni gartref, fel y byddai hi wedi'i ddymuno. Roedd ofn arni y gall ei baban gael ei thynnu oddi arni oherwydd yr atgyfeiriad, ac os na fyddai yn 'ufuddhau' i'r gweithwyr proffesiynol meddygol a oedd ynghlwm â'r mater. Roedd Ms X yn ystyried y bu ymyrraeth â'i hawliau Confensiwn a'i bod wedi cael ei 'threisio a'i dad-ddyneiddio'.

Gan fod cwyn Ms X wedi cyfeirio yn benodol at hawliau'r Confensiwn a gwahaniaethu, roedd ymchwiliad yr Ombwdsmon yn ystyried camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd gyda golwg ar y rhain, tra'n nodi nad ei gyfrifoldeb ef oedd gwneud canfyddiadau diffiniol ynglŷn ag unrhyw dor rheolau. Nododd mai'r iaith a ddefnyddiwyd gan Ms X oedd iaith Erthygl 3 (artaith, triniaeth annynol a diraddiol). Fodd bynnag, yn unol â dull y llysoedd, teimlodd ef ei fod yn fwy priodol i ystyried safbwyntiau Ms X drwy ganolbwyntio ar Erthygl 8 (sy'n cwmpasu urddas a'r hawl i wneud dewisiadau personol a hunanbenderfyniad). Roedd Erthygl 14 sy'n ymwneud â gwahaniaethu yn berthnasol hefyd.

Yn ystod yr ymchwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd yn derbyn bod ei gamau gweithredu yn achos Ms X wedi gwahaniaethu yn ei herbyn ar sail ei hiechyd meddwl. Fodd bynnag, roedd yn honni ei bod yn

angerheidiol cael yr atgyfeiriad er mwyn diogelu ei baban heb ei eni a'i fod â hawl i wneud hynny gan fod Erthygl 8 yn hawl amodol. Wrth nodi safbwynt y Bwrdd Iechyd, dywedodd yr Ombwdsmon ei fod wedi mabwysiadu dadl a oedd yn gyfreithiol ddiffygiol. Tra bod Erthygl 8 yn hawl amodol, nid oedd yn berthnasol i'r baban tan yr enedigaeth. Roedd camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd wedi digwydd cyn hynny pan oedd hawliau Erthygl 8 Ms X yn unig yn berthnasol. Gan gydnabod fod gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldebau diogelu, ac yn y cyd-destun hwnnw, roedd â hawl i ystyried buddiannau gorau'r plentyn heb ei eni. O gofio ei fod wedi cydnabod bod rhai camau gweithredu wedi cael eu cymryd oherwydd diagnosis Ms X, roedd yr Ombwdsmon yn derbyn bod y Bwrdd Iechyd wedi gwahaniaethu yn erbyn Ms X (Erthygl 14).

Yn ogystal â nifer o argymhellion trefniadol sy'n berthnasol i faterion eraill, ac ymddiheuro i Ms X, gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Bwrdd Iechyd gyfeirio'r achos at ei swyddog Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer ei adolygu a nodi gwersi ohono, yn arbennig ynglŷn â defnyddio Erthygl 8 yn ogystal â nodi'r gwersi sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl er mwyn sicrhau na fu unrhyw wahaniaethu.

201800160 [Iechyd - gofal diwedd oes]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cwynodd Mrs T ynglŷn â rheolaeth y Bwrdd Iechyd am gyflwr ei diweddar fam, sef Mrs Y. Roedd hyn yn cynnwys amseroldeb ei gamau gweithredu, gan gynnwys ei throsglwyddiad arfaethedig rhwng ysbytai a gofal diwedd oes Mrs Y. Bu farw Mrs Y mewn ysbyty er mai ei dymuniad hi oedd bod gartref.

Yn ei ymchwiliad, bu'r Ombwdsmon yn ystyried y bu methiant i gynllunio trosglwyddiad cywir yn achos Mrs Y. Roedd hyn, ynghyd â methiannau eraill, yn peryglu gallu Mrs Y i gael marw gydag urddas. Drwy'r methiannau a nodwyd, gwnaeth y Bwrdd Iechyd beidio â rhoi'r cyfle i Mrs Y wneud dewis ar sail gwybodaeth ynglŷn â'i thriniaeth ac achosi gofid ychwanegol iddi hi drwy wneud hynny. Pe bai wedi gwybod nad oedd triniaeth a oedd yn cael ei hystyried yn bosibl mewn gwirionedd, roedd yr Ombwdsmon yn teimlo y byddai Mrs Y wedi penderfynu cael ei rhyddhau o'r ysbyty yn gynt. Dywedodd ef fod hyn yn amlwg yn gysylltiedig â hawliau Erthygl 8 Mrs Y. Tra nad ei gyfrifoldeb ef oedd gwneud unrhyw ganfyddiadau ynglŷn â'r mater, gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Bwrdd Iechyd fyfyrto ynglŷn â'r mater hwn, o gofio mai dymuniad pendant Mrs Y oedd derbyn gofal yn ei chartref, pe na bai unrhyw driniaeth weithredol yn bosibl.

201604723 [Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a gwneud penderfyniadau]

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cwynodd Miss X ar ran grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau o'r gymuned Fyddar ynglŷn â phenderfyniad y Cyngor i dynnu'r addewid am gyllid i sefydliad elusennol. Roedd y sefydliad hwnnw

yn darparu gwasanaethau i'r gymuned honno. Cwynodd Miss X y bu methiant i ymgynghori yn iawn â'r gymuned Fyddar nac unrhyw sefydliadau perthnasol eraill a bu methiant yn ogystal i ymgymryd ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (AEG), fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Darganfu ymchwiliad yr Ombwdsmon y bu diffyg ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â'r newidiadau a gynlluniwyd. Roedd y cytundeb cyllido wedi bodoli ers llawer o flynyddoedd ac felly roedd ef yn teimlo bod disgwyliad rhesymol a chyfreithlon y byddai ymgynghoriad â'r gymuned Fyddar ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig yn digwydd. Ymhellach, roedd y Cyngor wedi methu ag ymgymryd ag AEG llawn cyn diwedd cyfnod y cytundeb cyllido cyn gwneud ei benderfyniad. Yn y modd hynny, darganfu'r Ombwdsmon fod y Cyngor wedi gweithredu drwy gamweinyddu a chadarnhaodd y gŵyn. Dywedodd ef nad oedd y Cyngor wedi rhoi sylw dyledus i'w ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Cytunodd y Cyngor i argymhellion yr Ombwdsmon, gan gynnwys y byddai yn cytuno i gwblhau AEG llawn a pharhau i ddarparu'r gwasanaeth presennol i'r gymuned Fyddar yn y cyfnod interim.

201606061 [Gwasanaethau Cymdeithasol – ymchwiliad Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed]

Cyngor Sir Ceredigion

Cwynodd Mrs K ynglŷn ag ymchwiliad Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) y Cyngor ynglŷn ag atgyfeiriad yn ei herbyn pan yr oedd yn gweithio mewn cartref nyrsio. Cwynodd hi nad oedd ymchwiliad y Cyngor wedi cael ei gynnal na'i gwblhau mewn modd amserol. Roedd wedi cymryd dros flwyddyn i'w gwblhau. Cwynodd Mrs K nad oedd wedi derbyn unrhyw esboniad ynglŷn â'r oedi yn y cyfnod hwnnw, fod y Cyngor wedi methu ag ystyried yr effaith arni hi am yr oedi a'i bod yn anhapus â chanlyniad yr ymchwiliad a'r ymdriniaeth o'i chŵyn. Nid oedd Mrs K wedi gallu gweithio nes bod yr ymchwiliad wedi dod i ben gan fod cyflogwyr yn gyndyn o'i recriwtio tra bod ymchwiliad POVA yn cael ei gynnal. Dywedodd ei fod wedi cael effaith ddinistriol ar ei bywyd a hawliodd fod y Cyngor wedi tramgwyddo Erthygl 6 (hawl i gael treial teg) wrth ymdrin â'r mater.

Tra'n nodi'r materion personél a ddyfynnwyd gan y Cyngor, roedd yr Ombwdsmon yn cadarnhau'r gŵyn drwy weld fod y broses ymchwilio (lle gosodir amserlenni) wedi cymryd gormod o amser yn achos Mrs K. Roedd y Cyngor hefyd wedi methu â chyfathrebu'r materion personél a'r rhesymau am yr oedi wrth Mrs K. Yn ogystal, nid oedd wedi ystyried yn iawn yr effaith bersonol arni hi. Gofynnwyd i'r Cyngor ymddiheuro, darparu rhwymedi ariannol a sicrhau na fyddai'r methiannau a nodwyd yn yr achos yn digwydd eto. Nododd yr Ombwdsmon fod y trothwy ar gyfer darganfod tramgwydd Erthygl 6 yn uchel; ar ben hynny, nid canfyddiad iddo ef ei wneud oedd hwn. Er gwaethaf hynny, tynnodd sylw at y ffaith oherwydd bod prosesau uwchgyfeirio yn bodoli ar gyfer ymdrin â'i chwynion, roedd Mrs K wedi derbyn gwrandawriad teg i'w phryderon. Roedd hyn yn cynnwys gallu cwyno wrth yr Ombwdsmon.

201801288 [Gwasanaethau Cymdeithasol – materion Gwarchodaeth Arbennig]

Cyngor Sir Powys – peidio â mynd ymlaen ag ymchwiliad drwy setliad a gytunwyd

Cwynodd Mr a Mrs A fod y Cyngor wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau statudol yn ystod ac ar ddiwedd y Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig a oedd yn ymwneud â dau o blant (X ac Y) yr oedd Mr a Mrs A yn gofalu amdany'n nhw. Gwneir Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig (GGA) gan y Llys Teulu, gan roi plentyn neu unigolyn ifanc i fyw gyda rhywun ar wahân i'w rhiant am dymor hir. Mae cefnogaeth ariannol a gwasanaethau eraill gan yr awdurdod lleol ar gael i bobl sy'n derbyn GGA. Roedd y cynlluniau GGA ar gyfer X ac Y yn dweud y bydden nhw â'r hawl i'r un gefnogaeth ariannol â'r bobl ifanc hynny a oedd yn gadael gofal yn 16, 18 a 21 oed. Dywedodd Polisi Gadael Gofal y Cyngor y byddai'n parhau i ddarparu cefnogaeth ariannol i blant nes y byddan nhw wedi cwblhau eu haddysg, neu nes eu bod wedi cyrraedd 24 oed (beth bynnag a oedd yn digwydd gyntaf). Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi peidio â darparu cefnogaeth ariannol i X ac Y er eu bod yn parhau mewn addysg llawn amser ac yn byw gyda Mr a Mrs A a oedd yn darparu ar gyfer eu hanghenion. Cwynodd Mr a Mrs A hefyd fod y Cyngor wedi methu â chynnal yr adolygiadau angenrheidiol o gynlluniau X ac Y a bod ei benderfyniad wedi rhoi'r teulu o dan bwysau ariannol, a'i fod wedi methu ag ymdrin â'u cwynion yn ddigonol.

Ar ddechrau'r ymchwiliad, gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Cyngor egluro iddo ei resymeg dros ymadael yn ymddangosiadol o'i sefyllfa bolisi yn yr achos hwn. Gofynnodd pa sylw yr oedd wedi'i roi i fod yn gysylltiedig ag Erthygl 8 (parch am fywyd teuluol) yn ei ymdriniaeth â'r teulu. Yn ogystal, gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Cyngor roi sylwadau ynglŷn â pha sylw yr oedd wedi'i roi i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O berthnasedd arbennig oedd Erthygl 3 (mae'n rhaid i fuddiannau gorau'r plentyn fod yn un o'r prif flaenoriaethau yn yr holl benderfyniadau sy'n effeithio ar blant) ac Erthygl 6 (mae'n rhaid i awdurdod wneud y cwbl a all i sicrhau bod plant yn datblygu i'w llawn botensial). Gofynnodd y Cyngor am rywfaint o amser i ystyried ei sefyllfa a chynigiodd wedyn i ddatrys y gŵyn. Cytunodd dalu £32,275.00 i Mr a Mrs A (sy'n cynrychioli cefnogaeth ariannol ar gyfer X ac Y o'r amser yr oedd wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w roi) a myfyrio a dysgu o'r methiannau a nodwyd yn yr achos. Gwnaeth yr Ombwdsmon roi'r gorau i'w ymchwiliad yn unol â'i bwerau.

Setliadau fel ffordd arall i ymchwiliad

Mae Deddf OGCC yn fy ngalluogi i ystyried datrys cwyn fel ffordd arall i gynnal ymchwiliad. Mae gan hyn y budd o alluogi gwneud argymhellion ffurfiol er mwyn sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu yn ogystal â chael canlyniad cyflymach ar gyfer achwynydd.

Ni allaf wneud hyn ond os yw'n gŵyn y gallwn fod wedi'i hymchwilio, a byddaf yn gwneud hyn gydag achosion yr ydw i'n eu hystyried yn briodol.

Roedd yr enghreifftiau o setliadau a welir isod yn bosibl oherwydd bod materion nodi ac ystyried hawliau dynol a chydraddoldeb wedi'u canfod yn gynnar, a oedd i brofi yn hanfodol er mwyn galluogi datrys y cwynion hynny.

Dengys yr enghraifft gyntaf bod dysgu ehangach sylweddol yn bosibl mewn rhai achosion lle nid yn unig yw'r broblem a'r datrysiad yn cael eu nodi yn gynnar, ond hefyd lle mae'r sefydliad dan sylw yn awyddus i ddysgu beth a aeth o'i le, fel yr oedd y Bwrdd Iechyd yn yr achos penodol hwn.

201705056 [Iechyd – trin claf sy'n dioddef o ddementia/cred grefyddol]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – datrysiad cyflym

Derbyniwyd Mr A, dyn hŷn yn dioddef o ddementia i un o ysbytai'r Bwrdd Iechyd. Roedd Mr A yn Sîc selog. Pan ymwelodd y teulu ag ef, gwnaethon nhw ddarganfod bod aelod o staff wedi eillio'i farf a'r blew a oedd ar ei wyneb. Dywedwyd bod hyn wedi cael ei wneud gyda chaniatâd Mr A, er cyfforddusrwydd wrth fwyta. Dywedodd y teulu eu bod nhw a Mr A mewn trallod o ddarganfod hyn a'i bod yn weithred o ymyriad crefyddol oherwydd nad oedd Mr A erioed wedi eillio'i farf yn ystod ei fywyd (yn unol ag arferion Sicaidd llym). Gwnaethon nhw ddweud na roddwyd unrhyw sylw i'w anghenion crefyddol at y pwynt lle'r oedd y teulu yn teimlo bod y weithred wedi cyfrannu yn sylweddol at ei ddirywiad. Bu farw Mr A ychydig ddyddiau yn ddiweddarach.

Nododd yr Ombwdsmon, oherwydd ei gredoau crefyddol, ei ddiagnosis o ddementia a'i drallod gyda'r canlyniad, roedd yn sicr nad oedd Mr A yn gallu rhoi caniatâd pendant i eillio'r blew ar ei wyneb. Roedd y weithred honno yn ymgysylltu â hawliau dynol canlynol Mr A – Erthygl 3 (triniaeth ddiraddiol), Erthygl 8 (yr hawl i barchu ei fywyd preifat a'i fywyd teuluol) ac Erthygl 9 (yr hawl i ddangos ei grefydd). Dywedodd yr Ombwdsmon na ddylai beth a oedd wedi digwydd fod wedi digwydd yn achos Mr A. Yn ogystal, roedd yn dangos y pwysigrwydd o gyfathrebu â'r teulu ehangach, yn arbennig felly pan mae'r claf yn dioddef o ddementia. Llwyddodd yr Ombwdsmon i ddatrys y gŵyn yn y ffordd ganlynol gyda sawl argymhellid yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer dysgu ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys y camau gweithredu allweddol canlynol sy'n berthnasol i faterion cydraddoldeb a hawliau dynol:

- Datblygu rhestr wirio a gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau ar gyfer staff sy'n debygol o gael rhyngweithiad dyddiol gyda chlaf ynglŷn â phwyntiau rhyng-grefyddol allweddol sy'n ymwneud â'r prif ddiwyllianau/credoau sy'n wybyddus o broffil demograffig y Bwrdd Iechyd.
- Cyflwyno sesiwn beilot ar ddysgu rhyng-grefyddol ar gyfer y ward lle y bu Mr A yn glaf ac yna ei chyflwyno i wardiau eraill.
- Cynnwys y wybodaeth honno mewn hyfforddiant sefydlu'r holl weithwyr gofal iechyd a staff nyrsio newydd.

- Sicrhau bod gwybodaeth ddiwylliannol hanfodol (fel yn achos Mr A) yn cael ei chofnodi ar gynlluniau gofal a chofnodion y claf.
- Adolygu cynllun hyfforddi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau cyflwyno hyfforddiant ar gyfer yr holl staff (gan chwilio am gyngor arbenigol os yw'n angenrheidiol) ynglŷn â'r materion canlynol:
 - Arferion diwylliannol a chrefyddol
 - Pwysigrwydd hanfodol o gyfathrebu gyda'r teulu ynglŷn â materion o'r fath
 - Hawliau Dynol a Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop
- Gweithredu ymarfer er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion sy'n dioddef o ddementia yn cael eu casglu yn gynnar ar ôl eu derbyn i'r ysbyty a'u cyfathrebu i staff a fyddai yn gofalu am y claf.

201605406 [Tai – addasiadau / atgyweiriadau ar gyfer tenantiaid anabl. Deddf Cydraddoldeb]

Trivallis (Cymdeithas Dai) – datrysiad cyflym

Roedd Mrs A yn cael anhawster cael mynediad gyda sgwter symudedd i'w chartref yr oedd yn ei rentu gan Gymdeithas Dai. Roedd y Gymdeithas Dai wedi gosod ramp, ond gwnaethpwyd y gwaith mor wael fel ei bod yn analluog o gael mynediad i'w chartref gyda'r sgwter, ac roedd hyn yn effeithio ar ansawdd ei bywyd a'i hannibyniaeth.

Darganfu'r Ombwdsmon fod y gwaith a wnaethpwyd wedi gwaethygu sefyllfa Mrs A fel unigolyn anabl. Nododd ef fethiant yn y modd yr oedd y Gymdeithas Dai wedi ymgymryd â'i addasiadau ac atgoffodd y Gymdeithas o'i dyletswydd cydraddoldeb ehangach wrth gwrdd ag anghenion ei thenantiaid anabl. Dywedodd yr Ombwdsmon:

“Rydw i'n bryderus fod diffygion gweinyddol, ynghyd â methiannau'r broses fewnol, wedi effeithio yn niweidiol ar allu'r Gymdeithas Dai i gyflawni ei dyletswydd gydraddoldeb yn iawn. O ganlyniad, mae'n ymddangos i mi bod yr achos hwn yn codi pryderon, ar lefel yr unigolyn ac yn ehangach fel ei gilydd, yn nhermau pa mor effeithiol yw'r Gymdeithas Dai wrth gwrdd ag anghenion ei thenantiaid anabl.”

Cytunodd y Gymdeithas Dai i delerau setliad arfaethedig yr Ombwdsmon a oedd yn cynnwys newidiadau i brosesau a myfyrio ynglŷn â'i dyletswydd gydraddoldeb, yn cynnwys pa fesurau ychwanegol y gall fod eu hangen i weithredu er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd honno.

201606454 [Addysg – Cludiant i'r Ysgol]

Cyngor Abertawe

Cwynodd Mrs X nad oedd y Cyngor wedi darparu cludiant i'r ysgol yn rhad ac am ddim ar gyfer ei merch 11 oed a oedd yn dioddef o awtistiaeth (nodwedd warchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb). Honnwyd bod y Cyngor wedi methu â rhoi sylw dyledus i anabledd ei merch a'i hanghenion penodol.

Wrth ofyn am sylwadau ynglŷn â'r gŵyn, gwnaeth yr Ombwdsmon gynnwys cwestiwn penodol yn llythyr cychwynnol yr ymchwiliad. Gofynnodd: *Pa ystyriaeth a roddwyd gan y Cyngor i'w gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb wrth gyrraedd ei benderfyniad (o gofio'r nodwedd warchoddedig)?*

Cynigiodd y Cyngor roi setliad a rhoddwyd gorau i'r ymchwiliad yn seiliedig ar gamau gweithredu'r Cyngor:

- Cynhaliodd y Cyngor Banel newydd er mwyn ystyried y materion cydraddoldeb hyn mewn perthynas â chais Mrs X am gludiant ar gyfer ei merch.
- Argymhellodd y Panel y dylid darparu cludiant yn seiliedig ar oed, anabledd, amgylchiadau unigol y plentyn ac argaeledd llwybr cerdded diogel i'r ysgol.
- Cytunodd y Cyngor i adolygu ei Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yng ngoleuni ystyriaeth y Panel o'r materion yn yr achos.

201704744 [Ymdrin â Chwynion – Deddf Cydraddoldeb]

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys – datrysiaid cyflym

Mae gan Mr T anabledd sy'n effeithio ar ei allu i gyfathrebu. Mae ef yn cyfathrebu drwy e-byst cymhleth y mae ef yn eu hystyried yn syml, ond i ddarllenwyr eraill maen nhw'n gallu bod yn anodd i'w dilyn. Mynnodd y Comisiynydd fod Mr T yn cwblhau ffurflen gyda'i gŵyn/pryder ynglŷn â'r Prif Gwnstabl. Roedd Mr T yn credu ei fod eisoes wedi darparu'r wybodaeth berthnasol yn ei e-byst a chwynodd fod y Comisiynydd wedi methu â gwneud addasiad rhesymol ar gyfer ei anghenion cyfathrebu. Yn ogystal, cwynodd fod y Comisiynydd wedi methu ag ymateb i'w gŵyn ynglŷn â'r Prif Gwnstabl ac wedi methu ag ymateb i'w gŵyn ynglŷn â gwasanaeth y Comisiynydd.

Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried fod y Comisiynydd wedi methu â chydabod nac ymateb i gais Mr T am addasiad rhesymol. Dylai'r Comisiynydd fod wedi ystyried sut i gyfathrebu yn effeithiol â Mr T ac a oedd yr addasiad rhesymol yn briodol. O ganlyniad, roedd y Comisiynydd wedi bod yn analluog i ymdrin â chynnwys cwyn Mr T ynglŷn â'r Prif Gwnstabl. Yn y cyd-destun hwnnw, darganfu'r Ombwdsmon nad oedd yn briodol i fynnu iddo gwblhau'r ffurflen; roedd Mr T wedi darparu digon o wybodaeth ynglŷn â chynnwys y gŵyn i alluogi iddi gael ei symud ymlaen, a bu methiant i wneud hynny. Cytunodd y Comisiynydd i delerau setliad a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Gweithio gyda Mr T er mwyn nodi pa addasiadau rhesymol a ellid eu gwneud i sicrhau cyfathrebu effeithiol a rhoi eglurhad clir iddo o ba addasiadau rhesymol (os oes rhai) a fyddai yn cael eu gwneud i hwyluso cyfathrebu.
- Sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â'r cyhoedd yn swyddfa'r Comisiynydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ynglŷn â sut maen nhw'n ymdrin ag unigolion gydag anghenion ychwanegol – gan gynnwys darparu addasiadau rhesymol priodol.
- Dylid rhannu pwyntiau dysgu allweddol â staff ac adrannau perthnasol eraill fel y bo'n briodol.

Ni chadarnhawyd

Fel Ombwdsmon, rydw i'n gweithredu yn amhleidiol. O ganlyniad, ar ôl craffu ar y dystiolaeth, mae llawer o gwynion yn rhai nad wyf yn eu cadarnhau. Wedi'i gynnwys yn y detholiad a welir isod, mae enghraifft o awdurdod a oedd yn amlwg wedi ymdrin ag ystyriaethau hawliau dynol ac roedd yn gallu dangos i mi ei fod wedi gwneud hynny yn ddigonol.

201704517 [Tai – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol]

Dinas a Sir Abertawe

Cwynodd Miss A nad oedd y Cyngor wedi ymchwilio yn ddigonol i'w chwyn ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG). Roedd llawer o'i phryderon mewn perthynas â phlant ifanc yn chwarae pêl-droed, ambell waith yn hwyr gyda'r nos, ar dir a oedd yn eiddo i'r Cyngor a oedd gyferbyn â'i chartref. Roedd Miss A wedi gofyn i'r Cyngor roi terfyn ar y gweithgaredd a gosod arwydd 'dim chwarae pêl' ar yr eiddo. Roedd swyddog o'r Cyngor wedi dweud y byddai hyn yn annhebygol o gael ei gytuno oherwydd y byddai yn amhosibl gorfodi rhybudd o'r fath. Bob tro y gwnaed cwynion, a phan oedd swyddogion wedi ymweld â'r ardal i ymchwilio i bryderon Miss A, roedd y plant yn anochel wedi rhoi terfyn ar chwarae gemau pêl neu wedi gwasgaru. Er gwaethaf hynny, roedd y Cyngor wedi anfon llythyr at yr holl breswylwyr yn yr ardal i ofyn iddyn nhw atgoffa eu plant i fod yn ofalgar o breswylwyr eraill pan oedden nhw'n chwarae yn yr ardal.

Cwynodd Miss A, gan ychwanegu nad oedd y Cyngor wedi rhoi sylw dyledus i'w ddyletswyddau cydraddoldeb o gofio ei bod hi yn anabl ac roedd felly wedi gwahaniaethu yn ei herbyn oherwydd bod plant yn chwarae gemau pêl yn cael effaith mwy sylweddol arni hi oherwydd yr anabled hwnnw. Roedd hi'n teimlo bod mannau eraill y gallai'r plant chwarae arnyn nhw, ac o gofio'i hanabled, ni ddylen nhw wneud hynny mor agos at ei chartref hi. Ychwanegodd Miss A ei bod yn teimlo fod ei hawliau dynol wedi cael eu tramgwyddo.

Cydnabu'r Ombwdsmon, yng nghŵyn Miss A, ei bod hi wedi codi materion a oedd yn gysylltiedig ag Erthygl 8 mewn perthynas â mwynhau'i chartref yn ogystal â materion yn ymwneud â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Dywedodd y Cyngor wrth yr Ombwdsmon ei fod wedi ymchwilio i bryderon Miss A ac wedi ystyried ei hawliau Erthygl 8. Fodd bynnag, gan fod hon yn hawl amodol, roedd hefyd wedi ystyried hawliau'r plant a'r angen i'w hamgylchedd chwarae fod yn ddiogel. Roedd yr ardal o gwmpas cartref Miss A a thir y Cyngor yn amgylchedd diogel fel hyn. Ychwanegodd y Cyngor fod egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi'u hymwreiddio yn ei bolisiau a'i ymarferion ac felly, drwy wneud yr ymarfer cydbwysu a gynigir gan Erthygl 8, roedd wedi ffafrio hawliau ac anghenion y gymuned gyfan – yn arbennig felly'r plant a'u hawl i chwarae gyda

ffrindiau mewn amgylchedd diogel. Wrth ofyn i breswylwyr a oedd yn rhieni fod yn ofalgar a pharchu preswylwyr eraill, dywedodd ei fod wedi gwneud y cwbl a allai.

Nododd yr Ombwdsmon fod y Cyngor wedi dangos ei fod wedi gofyn y cwestiynau perthnasol iddo'i hun yn benodol wrth ystyried hawliau Erthygl 8 Miss A ac roedd wedi eu cloriannu yn erbyn hawliau'r plant (fel yr amlinellwyd yn CCUHP). Roedd ganddo'r hawl i gyrraedd y penderfyniad a wnaeth, ac felly roedd â hawl i ymyrryd gyda hawliau un unigolyn i warchod hawliau a rhyddidau pobl eraill. Cafodd hwn ei ddarparu yn benodol gan Erthygl 8.

Nid lle'r Ombwdsmon oedd ymyrryd â'r penderfyniad hwnnw, a daeth i'r casgliad ei fod wedi cael ei wneud yn briodol.

201706115 [Gwasanaethau Tai – grantiau ar gyfer pobl anabl]

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cwynodd Ms Y fod y Cyngor wedi methu yn afresymol â rhoi mynediad iddi hi i gael ei hystyried ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) drwy oedi mewn trefnu asesiad gan Therapydd Galwedigaethol (ThG), fel yr oedd ei angen i symud y GCA ymlaen.

Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod yr oedi yr oedd Ms Y wedi'i ddiodeff i gael asesiad oherwydd y galw uchel am y gwasanaeth ThG, ac felly roedd angen i'r Cyngor flaenoriaethu anghenion yr ymgeiswyr. Yn y cyd-destun hwn, roedd ef yn fodlon nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cyngor wedi methu â rhoi sylw i hawliau dynol Ms Y. Roedd hawliau cystadleuol dan sylw.

201702158 [Cynllunio – niwsans sy'n cael ei achosi gan sŵn]

Cyngor Sir Ddinbych

Cwynodd Mrs X ynglŷn ag ymdriniaeth y Cyngor o'i chŵyn ynglŷn â niwsans sŵn a oedd yn gysylltiedig â gwaith stancio dirgrynlol a oedd yn cael ei wneud ar ddatblygiad ysgol newydd wrth ymyl ei chartref. Dywedodd Mrs X ei fod yn diodeff o gur pen a sŵn mwmian yn ei chlustiau oherwydd y gwaith y cwynwyd amdano a'i fod yn gwaethygu ei chyflwr meddygol a'i hanabledd. Ymchwiliodd y Cyngor i bryderon Mrs X ar ôl gwneud gwaith monitro eang. Daeth i'r casgliad nad oedd y gwaith yn cwrdd â'r trothwy i gael ei ddosbarthu fel niwsans sŵn statudol. Ychwanegodd nad oedd unrhyw breswylwr arall yn y cyffiniau wedi cwyno ynglŷn â'r gwaith datblygu. Ymhellach, dywedodd fod mesurau yn bodoli ar gychwyn y gwaith (fel rhan o'r broses caniatâd cynllunio) i gyfyngu ar yr oriau o weithgaredd ac roedd yr oriau hyn wedi cael eu cadw. Felly, roedd wedi gwneud y cwbl a oedd yn rhesymol angen ei wneud.

Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon na fu unrhyw gamweinyddu ar ran y Cyngor oherwydd ei fod wedi ymchwilio yn gywir i bryderon Mrs X. Darganfu nad oedd o fewn ei gylch gorchwyl ef i benderfynu ar gwestiwn cyfreithiol ynglŷn â beth a oedd yn creu niwsans statudol. Wrth ystyried hawliau Mrs X sy'n gysylltiedig ag Erthygl 8 (parchu ei bywyd preifat a'i bywyd teuluol), nododd yr Ombwdsmon

mai hawl amodol ydoedd. Yn yr achos hwn, dywedodd ei fod yn berthnasol nodi fod yr ysgol yn cael ei hadeiladu ar gyfer budd y gymuned ehangach. Yn y cyd-destun hwnnw, roedd yn rhesymol yn yr ymarfer cydbwysio i effeithio ar hawliau unigolyn pan oedd y Cyngor wedi cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar effaith y gwaith datblygu ar Mrs X.

Sut i gysylltu â ni

Ffôn 0300 790 0203

E-bost holwch@ombwdsmon.cymru

Ewch i'r wefan www.ombwdsmon.cymru

Ysgrifennwch at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cymru 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)